Cyngor Cymuned Y Felinheli

Canllawiau ar gyfer grwpiau sy'n defnyddio'r Neuadd

CYFLWYNIAD

Mae Neuadd Goffa'r Felinheli yn cynnwys y brif neuadd a'r ystafell gymuned – y Neuadd yn y ddogfen hon. Cyngor Cymuned Y Felinheli yw'r perchennog ac mae Pwyllgor Defnyddwyr Neuadd wedi ei sefydlu.

Mae gan y Neuadd Drwydded Eiddo ac yswiriant ac mae'n cael ei arolygu a'i wasanaethu ar gyfer diogelwch tân. Does dim hawl smygu yn y Neuadd nac ar y tir o gwmpas y Neuadd sydd berchen i'r Cyngor Cymuned. Does dim hawl i alcohol "groesi rhiniog" y Neuadd fel sy'n cael ei nodi yn y Gweithredoedd.

Mae'r Neuadd ar gael am ddim i gymdeithasau neu fudiadau gwirfoddol, elusengar a chymunedol o'r Felinheli ar gyfer cynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, cyn belled â bo'r Cyngor llawn yn cydsynio i hyn.

Mae'r Neuadd hefyd ar gael i bartïon pen-blwydd a digwyddiadau preifat neu fusnesau eraill am swm penodol wedi ei gytuno efo'r Clerc ac i fudiadau o'r tu allan i'r pentref am swm penodol, efo cytundeb y Cyngor.

GRWPIAU DEFNYDDWYR

Dylai'r defnyddwyr gadw golwg manwl ar ddiogelwch eu haelodau bob amser ac fe ddylent wneud yn siŵr fod y neuadd yn dwt ar ddiwedd pob cyfnod o ddefnydd.

Y Gofalwr fydd yn gyfrifol am agor a chau'r neuadd cyn iddo gael ei ddefnyddio, oni bai fod y lle'n cael ei ddefnyddio gan Ddefnyddwyr sy'n Ddeiliaid Goriadau. Mae'r gofalwr yn cael ei gyflogi gan y Cyngor ac mae ganddo nifer o ddyletswyddau sydd wedi eu cytuno. (gweler Dyletswyddau'r Gofalwr).

Bydd y Clerc yn cadw amserlen o ddefnydd y neuadd; bydd copi yn cael ei osod yn y neuadd a bydd gan y gofalwr gopi hefyd.

Bydd rhai cymdeithasau a chlybiau sy'n defnyddio'r neuadd yn rheolaidd yn cael set o oriadau, ar ddisgresiwn y Cyngor – sef y Defnyddwyr sy'n Ddeiliaid Goriadau.

Defnyddwyr sy'n Ddeiliaid Goriadau:

1) Dim ond cynrychiolwyr etholedig Grwpiau Defnyddwyr rheolaidd ddylai gael goriadau.

3) Bydd y Clerc yn cadw rhestr o enwau a manylion cyswllt pob deiliad goriadau. Dylid rhoi gwybod i'r Clerc os bydd unrhyw newid.

4) Dim ond cyn neu ar ôl gyfarfodydd y grŵp defnyddwyr y dylid defnyddio'r goriadau yn unol â chytundeb gyda'r Cyngor. Os yw grwpiau Defnyddwyr yn awyddus i ddefnyddio'r Neuadd ar adegau eraill, fe ddylen nhw gael caniatâd y Clerc ymlaen llaw.

5) Dylai'r Deiliaid Goriadau drafod eu anghenion gwresogi efo'r Gofalwr.

6) Y Deiliaid Goriadau fydd yn gyfrifol am gloi pob ffenestr a drws ac am ddiffodd y golau a'r gwrs ar ddiwedd pob sesiwn (oni bai fod y neuadd yn cael ei ddefnyddio yn syth wedyn gan grŵp arall.)

7) Dylai Deiliaid Goriadau roi gwybod i'r Clerc am unrhyw ddifrod neu broblemau cynnal a chadw.

Dyddiad:
Rhif cyhoeddiad: